**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

**Cofnodion ANGHYFYNGEDIG** y rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 4.00p.m. ddydd Iau 29 Medi 2022 drwy Zoom

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)

Justin Albert
Siwan Davies
Taya Gibbons
Uzo Iwobi
Yr Athro Medwin Hughes
Rowland Jones
Arwel Ellis Owen
Matthew Peake
Victoria Provis
Dr Conny Matera Rogers
Dr Stuart Robb
Geraint Roberts
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry
Emlyn Schiavone
Dr Peter Spring
Deris Williams

Yn bresennol hefyd:

Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr/Ceredigion
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Yr Athro Mirjam Plantinga, Pro Is-Ganghellor
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol (drwy Teams)
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Rebecca Doswell, (Pennaeth Polisi a Chynllunio)
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 22.38 Ymddiheuriadau am absenoldeb a | DERBYNIWYD ymddiheuriadau am absenoldeb gan Vanessa Liverpool, Maria Stedman a Dr Kerry Tudor.<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Dr Peter Spring i'w gyfarfod cyntaf fel aelod Staff Academaidd newydd ei benodi. | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| chroesawu aelodau newydd | | |
| 22.39 Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau y Datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (JCO160). | |
| 22.40 Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau ddiweddariad llafar gan y Cadeirydd.<br><br><u>Recriwtio aelodau annibynnol newydd a Darpar Gadeirydd</u><br>Adroddodd y Cadeirydd y cynhelid cyfweliadau am aelodau annibynnol newydd ar 28 Hydref gydag argymhellion yn cael eu gwneud i gyfarfodydd y Cynghorau ym mis Tachwedd. Byddai'r panel cyfweld yn cynnwys ef ei hun, Maria Stedman, Nigel Roberts, Siwan Davies a'r Is-Ganghellor.<br><br>O ran penodi Darpar Gadeirydd, byddai cynigion yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu gydag argymhelliad yn cael ei wneud i gyfarfodydd y Cynghorau ym mis Tachwedd.<br><br><u>Diwrnod Cynllunio'r Cyngor</u><br>Ymddiheurodd y Cadeirydd i'r aelodau am ohirio'r diwrnod cynllunio gan adrodd bod trefniadau ar y gweill am ddyddiad arall.<br><br><u>Digwyddiadau'r Haf</u><br>Adfyfyriodd y Cadeirydd ar y rhaglen o ddigwyddiadau'r haf gan ddiolch i staff am eu gwaith ar drefnu dathliadau'r daucanmlwyddiant yn Llambed. Canmolodd bresenoldeb y Brifysgol mewn digwyddiadau megis yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Cyfeiriodd at ddigwyddiad datblygiad staff Gwybodeg Iechyd yr oedd wedi'i fynychu yng Nghaerdydd gan ganmol y gydnabyddiaeth a dderbyniodd y Brifysgol am ei gwaith yn y maes hwn. Cadarnhaodd hefyd y byddai cinio yn cael ei drefnu i gydnabod cyfraniad aelodau annibynnol y Cyngor a ymddeolodd yn ddiweddar. | |
| 22.41 Adroddiad yr Is-Ganghellor | Mae'r eitem hon dan gyfyngiadau ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod | |
| 22.42 Datblygu cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ynghylch datblygu cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn ymateb i Adolygiad Camm.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd ei bod hi, ynghyd â chynrychiolwyr y Cyngor a Bwrdd CSG, wedi mynychu gweithdy a hwyluswyd gan Ymlaen AU ar 5 Medi. Roedd y gweithdy wedi ystyried cydbwysedd a natur y Brifysgol, sut | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| Chynhwysiant y Cyngor | gallai cyrff llywodraethu gynyddu eu hamrywiaeth a mecanweithiau am well ymgysylltu a sicrwydd. Byddai'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ystyried yn fanwl sut i fynd â'r canlyniadau ymlaen a byddai'n dod ag adroddiad pellach i gyfarfod nesaf y Cynghorau. | |
| 22.43<br>Protocol ynghylch defnyddio cyfieithu a chyfarfodydd ar-lein/hybrid | YSTYRIODD y Cynghorau brotocol drafft ynghylch defnyddio cyfieithu a chyfarfodydd ar-lein/hybrid (JCO161).<br><br>Nododd aelodau fod y ddogfen yn fersiwn a ddiweddarwyd o'r protocol a grëwyd yn ystod y cyfnod clo cyntaf ac roedd yn canolbwyntio ar ddwy elfen: y defnydd o gyfieithu yn enwedig pan fyddai'n methu, a chynnal cyfarfodydd ar-lein. Hefyd roedd yn cynnig ateb am gyfarfodydd wyneb yn wyneb pan nad oedd modd i aelod fod yn bresennol yn yr ystafell.<br><br>Cyfeiriodd aelodau at gyfieithu a'r angen i fod yn ymarferol o ran sicrhau bod busnes yn rhedeg yn llyfn. Cydnabu aelodau fod hawl gan bawb i siarad yn yr iaith o'i ddewis ond teimlent fod atal cyfarfod pan fyddai'r cyfieithu'n cael ei golli yn aneffeithlon.<br><br>Nododd aelodau fod y calendr o gyfarfodydd am 2022/23, yn cynnwys y dull, wedi'i gymeradwyo. Nid oedd bwriad i edrych eto ar batrwm cyffredinol y cyfarfodydd ar yr adeg hon, ond yn hytrach gwneud darpariaeth am yr achlysuron hynny pan nad oedd yn bosibl i unigolyn fynychu wyneb yn wyneb.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau y protocol fel dogfen weithiol interim ond gofynasant fod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn rhoi ystyriaeth bellach i'r materion a godwyd. | Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i ystyried y protocol a dod ag argymhellion i'r cyfarfod nesaf |
| 22.44<br>Cofnodion | CADARNHAODD y Cynghorau Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2022 (JCO162). | |
| 22.45<br>Cynllun gwaith | CYMERADWYODD y Cynghorau eu cynllun gwaith am y flwyddyn (JCO163). | |
| 22.46<br>Cylch Gorchwyl | DERBYNIODD y Cynghorau eu cylch gorchwyl (JCO164). | |
| 22.47<br>Gweithredu gan y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau yr adroddiad ar gamau gweithredu'r Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf (JCO165). | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
| --- | --- | --- |
| 22.48 Gweithdrefn datganiadau o fuddiannau gan staff | DERBYNIODD y Cynghorau yr adroddiad yn amlinellu gweithdrefn Datganiadau o Fuddiannau gan Staff (JCO166). | |
| 22.49 Datganiadau o fuddiannau | Nid adroddwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf | Byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 24 Tachwedd 2022. | |

Terfynwyd y cyfarfod am 5.00 p.m.